Llywodraeth Cymru
Welsh Government

LLYWODRAETH CYMRU

# Cynllun Gwella'r Gyllideb

llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48835, ISBN digidol 978-1-83577-077-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cynnwys

**Cyflwyniad** 1

**Yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwelliannau arfaethedig yn ystod 2023** 4

Penderfyniadau Gwario 4

Dadansoddiadau Ariannol ac Economaidd ac Asesiad o'r Effaith 5

Cynllunio Seilwaith 5

Trethi Cymru 5

Ymgysylltu 6

# Cyflwyniad

Mae Cynllun Gwella'r Gyllideb yn amlinellu ein gweledigaeth, gan nodi ein dyheadau tymor byr a thymor canolig dros y pum mlynedd nesaf, er mwyn gwella proses y gyllideb drwy ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi'r Cynllun bob blwyddyn, er mwyn cydnabod natur barhaus sbarduno a chynnal newid tymor hirach. Ein nod cyffredinol yw y bydd y gwelliannau arfaethedig hyn i broses y gyllideb yn arwain at fwy o dryloywder yn nogfennau'r Gyllideb flynyddol i ddangos sut mae'r Ddeddf wedi dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch y gyllideb.

Mae'r Cynllun hwn sydd wedi'i ddiweddaru yn parhau i ddangos sut rydym wedi adeiladu, neu'n bwriadu adeiladu, ar y gwaith hwn yn y blynyddoedd i ddod, gan gynnwys y mesurau rydym wedi'u cymryd yn ystod cylch y gyllideb bresennol.

Cyhoeddwyd Cynllun eleni unwaith eto yng nghyd-destun gorfod wynebu dewisiadau eithriadol o anodd. Er bod y camau rydym wedi gorfod eu cymryd i reoli'r cyd-destun cyllidol hwn wedi mynnu ein bod yn diwygio rhai o'n cynlluniau, er gwaethaf y cyd-destun hwn rydym wedi gwneud popeth yn ein gallu i barhau i ganolbwyntio ar yr uchelgeisiau tymor hirach i ddiwygio'r gyllideb a phrosesau treth. Mae ein Cynllun Gwella'r Gyllideb yn nodi'r cynnydd rydym wedi'i wneud mewn amryw o feysydd ynghyd â'n huchelgeisiau ar gyfer diwygiadau i'r dyfodol.

I'n helpu gyda'r gwaith hwn, rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb. Nod y grŵp hwn yw ymgysylltu a symbylu gwelliannau i'n prosesau treth a'r gyllideb, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Gwella'r Gyllideb yn ei dro. Mae manylion y Cylch Gorchwyl, a chofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd eleni, ar gael ar dudalen we'r Grŵp.

Rydym yn parhau i ymgynghori â'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith ar y Gyllideb ochr yn ochr ag amrywiaeth o arbenigwyr a Llywodraethau rhyngwladol, ar y ffordd orau o ddiwygio a gwneud gwelliannau i'r ffordd y cynhelir ein prosesau trethu a chyllidebu. Rydym hefyd wedi parhau i ymgysylltu â Llywodraethau eraill ym maes cyllidebu ar sail rhywedd.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda Plant yng Nghymru, Bwrdd Prosiect Cymru Ifanc a swyddogion ar draws Llywodraeth Cymru, i gydgynhyrchu fersiwn Pobl Ifanc o Gynllun Gwella'r Gyllideb, a fydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft ym mis Rhagfyr 2023. Hefyd, datblygwyd fersiwn wedi'i hanimeiddio i ymgysylltu â phobl ifanc a'u helpu i ddeall sut mae Llywodraeth Cymru'n gweithio a beth mae Trysorlys Cymru yn ei wneud. Y bwriad yw lansio'r animeiddiad ym mis Ionawr 2024.

Gan weithio gydag amrywiaeth o gydweithwyr mewnol ac allanol, rydym wedi parhau i hyrwyddo gwell dealltwriaeth o gyllidebu ar sail rhywedd ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Mae'r cynlluniau peilot cyllidebu ar sail rhywedd a gynhaliwyd yn 2022-23 wedi llunio ein dealltwriaeth o sut gellir gwreiddio ac ehangu'r gwaith hwn ymhellach. Rydym wrthi'n ystyried y camau nesaf i wreiddio'r dulliau gweithredu hyn ymhellach ym mhroses ein Cyllideb.

Rydym yn parhau i fabwysiadu dull cydlynol a strategol o gyfathrebu, a'r flaenoriaeth yw ymgysylltu a chydweithio â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid allweddol. Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i ddefnyddio ein hysgogiadau treth presennol er budd trethdalwyr Cymru a chyflawni amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch chi am Gynllun Gwella'r Gyllideb, cysylltwch â BGB.PolisiAChyflenwi@llyw.cymru

Mae tudalennau 4, 5, 6, 7, 8 a 9 y Cynllun hwn yn cynnwys crynodeb manylach o'r cynnydd a wnaed gennym ar draws ein prosesau treth a'r gyllideb.

Mae Cynllun Gwella'r Gyllideb wedi'i lunio ar sail pum elfen allweddol:

1. Penderfyniadau Gwario
2. Dadansoddiadau Ariannol ac Economaidd ac Asesiad o'r Effaith
3. Cynllunio Seilwaith
4. Trethi Cymru
5. Ymgysylltu

**1. Penderfyniadau Gwario** – Rydym yn adolygu sut gallwn wella ein prosesau a ddefnyddir ar draws Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd i nodi a datblygu gwell cynigion gwario, i wella gallu a'n helpu i flaenoriaethu penderfyniadau sy'n cyd-fynd yn gliriach â'r nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio, ac i ystyried cyfleoedd i gynllunio'n well ar gyfer y tymor hirach.

**2. Dadansoddiadau Cyllidol ac Economaidd ac Asesu Effaith** – Rydym yn parhau i werthuso sut gallwn wella'r Dadansoddiadau Cyllidol ac Economaidd presennol ar draws Llywodraeth Cymru er mwyn asesu a gweld yn well beth yw effaith ein penderfyniadau ynghylch y gyllideb.


**3. Cynllunio Seilwaith** – Cynlluniwyd Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (WIIS) i osod fframwaith ar gyfer ein holl fuddsoddiadau mewn seilwaith. Mae'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan nodi ein blaenoriaethau a sicrhau bod ein buddsoddiadau'n cyflawni nifer o amcanion ac yn cyflenwi nifer o fendithion.

**4. Trethi Cymru** – Rydym yn parhau i fwrw ymlaen â'n hymrwymiadau a manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio ein hysgogiadau treth presennol er budd trethdalwyr Cymru a chyflawni amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru. Rydym yn parhau i feithrin perthnasoedd gwaith adeiladol, gan ymgysylltu'n gynharach i gefnogi'r gwaith o lunio polisïau'n well. Rydym yn canolbwyntio ar godi refeniw i ariannu gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl, ystyried sut gellir defnyddio'r ysgogiadau treth presennol sydd ar gael i ni i gyflawni ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a datblygu ein buddiannau treth yn y dyfodol i gyflawni amcanion cyllidol a pholisi ehangach. Yn unol â'r egwyddorion polisi trethi a nodir yn y Fframwaith, byddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn datblygu Polisi Trethi sy'n gwneud ein trethi'n syml, yn glir, yn flaengar ac yn sefydlog, gydag eglurder ac effeithlonrwydd deddfwriaethol a gweinyddol.

**5. Ymgysylltu** – Rydym wedi parhau â'n dull strategol o ymgysylltu a chydweithio ar y Gyllideb, gan godi ymwybyddiaeth o wariant cyhoeddus a threthu. Rydym wedi ymgysylltu'n ystyrlon â rhanddeiliaid ac unigolion allweddol y mae penderfyniadau ynghylch y gyllideb yn effeithio arnynt, gan eu galluogi i nodi eu barn ac i'r farn honno gael ei hystyried; ac rydym wedi cydweithio â rhanddeiliaid i siapio gwelliannau i gynigion gwariant a threthiant.

Mae'r diagram cysyniadol ar y dudalen nesaf yn dangos y berthynas rhwng amryw o agweddau ar y Gyllideb flynyddol sydd yn y Cynllun hwn ac sy'n cael eu crynhoi uchod.

## Sut mae'r cyfan yn gweithio gyda'i gilydd?



# Yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwelliannau arfaethedig yn ystod 2023

Ceir amlinelliad isod o gynnydd y gwelliannau arfaethedig yn ystod y cyfnod hwn. Er bod y camau rydym wedi gorfod eu cymryd i reoli'r cyd-destun cyllidol hwn wedi mynnu ein bod yn diwygio rhai o'n cynlluniau, er gwaethaf y cyd-destun hwn rydym wedi gwneud popeth yn ein gallu i barhau i ganolbwyntio ar yr uchelgeisiau tymor hirach i ddiwygio'r gyllideb a phrosesau treth. Mae ein Cynllun Gwella'r Gyllideb yn nodi'r cynnydd rydym wedi'i wneud mewn amryw o feysydd yn ogystal â nodi ein huchelgeisiau ar gyfer diwygiadau i'r dyfodol.

Drwy waith Cyllideb 2024-25, rydym wedi parhau i archwilio sut mae mynd ati i wella ein dull integredig o gyllidebu, deall croestoriadedd ac effeithiau anfwriadol ein penderfyniadau gwario. Rydym hefyd yn edrych tua'r dyfodol ac yn bwriadu cynnal adolygiad manylach o'n Hasesiad Effaith Integredig Strategol yn 2024. Rydym wedi ymgysylltu'n gynnar â'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith ar y Gyllideb a byddwn yn ymgysylltu ag amryw o randdeiliaid i fwrw ymlaen â hyn gyda'r bwriad o gwblhau'r adolygiad hwn ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2025-26 a bwrw ymlaen ag unrhyw ddiwygiadau ar gyfer Cyllideb 2026-27.

Rydym wedi mireinio ac ymestyn ein model effaith ddosbarthiadol ar gyfer dadansoddi gwariant cyhoeddus yng Nghymru, gan ddarparu dealltwriaeth lefel uchel ar y meysydd gwariant datganoledig mwyaf. Cyhoeddwyd y diweddariad ar y dadansoddiad dosbarthiadol fel rhan o becyn Cyllideb Ddrafft 2024-25.

Cynhaliom ein cynhadledd dreth flynyddol sy'n helpu i hyrwyddo agenda trethi Cymru ar 9 Tachwedd 2023. Roedd y cyflwynwyr yn cynnwys Canolfan Llywodraethiant Cymru, Awdurdod Cyllid Cymru a'r Prif Economegydd, a chafwyd adroddoddau gan y rhai a oedd yn bresennol yn tynnu sylw at werth ein dull agored a chynhwysol o ymgysylltu.

Mae'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb wedi parhau i archwilio amryw o feysydd gan gynnwys ein dealltwriaeth o sut y gellir gwreiddio ac ehangu cyllidebu ar sail rhywedd ar draws y sefydliad; archwilio'r ffordd orau o gefnogi dull gweithredu cyllideb gyfan ar gyfer gweithgarwch ataliol, ac annog ac atgyfnerthu'r gwaith o gydgynhyrchu fersiwn Pobl Ifanc o Gynllun Gwella'r Gyllideb. Bydd rhagor o fanylion am gynllun gwaith y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb ar gyfer 2024 yn cael eu cyhoeddi ar dudalen we'r Grŵp yn y Flwyddyn Newydd.

## Penderfyniadau Gwario

- Fel rhan o'r camau gweithredu eithriadol rydyn ni wedi gorfod eu cymryd yn 2023-24, a'r gwaith ar Gyllideb 2024-25, rydym wedi parhau i archwilio sut rydyn ni'n datblygu ein dull gweithredu i wella sut rydyn ni'n deall effeithiau integredig y dewisiadau sy'n cael eu gwneud ar y gyllideb. Fel rhan o hyn, rydym wedi ystyried sut gallwn ni ddeall yn well beth yw effeithiau croestoriadol ac anfwriadol ein penderfyniadau gwario a chaniatáu i ni fanteisio i'r eithaf ar effaith y cyllid sydd ar gael, ochr yn ochr â lliniaru effeithiau'r dewisiadau rydyn ni wedi gorfod eu gwneud.
- Yn 2022-23, fe wnaethom fabwysiadu strategaeth gyllidol newydd i gynyddu'r cyllid sydd ar gael. Roedd hyn yn cynnwys strategaeth newydd ynghylch cronfeydd wrth gefn a gor-raglen gyfalaf, a fydd yn cael ei monitro drwy broses y Gyllideb atodol.
- Roedd Ail Gyllideb Atodol 2022-23 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 yn parhau i ddarparu naratif cynhwysfawr o ddyraniadau sylweddol y cyllidebau presennol a sut maent yn cael eu hail-flaenoriaethu, ac effeithiau hynny, er mwyn gwella tryloywder. Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd wrthi'n adolygu'r broses ar gyfer cyrff sy'n cael eu hariannu'n uniongyrchol mewn perthynas â chyllidebau atodol. Byddwn yn gweithio gyda'r Pwyllgor i wella prosesau yn ôl yr angen.
- Rydym hefyd yn edrych tua'r dyfodol ac yn bwriadu cynnal adolygiad manylach o'n Hasesiad Effaith Integredig Strategol yn 2024. Rydym wedi ymgysylltu'n gynnar â'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith ar y Gyllideb a byddwn yn ymgysylltu ag amryw o randdeiliaid i fwrw ymlaen â hyn gyda'r bwriad o gwblhau'r adolygiad hwn ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2025-26 a bwrw ymlaen ag unrhyw ddiwygiadau ar gyfer Cyllideb 2026-27.
- Rydym wedi parhau i gydweithio â Llywodraethau eraill i rannu profiadau o wella'r gyllideb, yn fwyaf diweddar gyda llywodraethau'r DU, yr Alban a Seland Newydd. Mae hyn yn helpu i lunio'r gwersi rydym wedi eu dysgu mewn meysydd fel Adolygiadau o Wariant, cyllidebu ar sail rhywedd ac ymgysylltu mewn perthynas â'r gyllideb. Mae'r cynlluniau peilot cyllidebu ar sail rhywedd a gynhaliwyd yn 2022-23 wedi llunio ein dealltwriaeth o sut gellir gwreiddio ac ehangu'r gwaith hwn ymhellach. Rydym wrthi'n ystyried y camau nesaf i wreiddio'r dulliau gweithredu hyn ymhellach ym mhroses ein cyllideb; bydd hyn yn parhau drwy gydol 2024.
- Fel rhan o'r gwaith gyda Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith ar y Gyllideb, mae is-grŵp yn parhau i ystyried ymgorffori ataliaeth yn ein prosesau, gan ddefnyddio bioamrywiaeth fel maes i dreialu syniadau. Yn amodol ar ganfyddiadau'r gwaith hwn, byddwn yn ystyried dull gweithredu cyllideb gyfan ar gyfer gweithgarwch ataliol, gan brofi elfennau ymarferol, a nodi'r amodau sydd eu hangen i wneud hyn yn effeithiol ar draws y sefydliad cyfan.
- Rydym hefyd wedi parhau â'r gwaith atal drwy newid pwyslais y gronfa Buddsoddi i Arbed er mwyn canolbwyntio ar fwrw ymlaen ag ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu sy'n ymwneud â gwella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ledled Cymru. Cytunwyd ar y gyfran gyntaf o gyllid, a'i nod yw cynorthwyo gofalwyr maeth.

## Dadansoddiadau Cyllidol ac Economaidd ac Asesu’r Effaith

- Gan ddefnyddio’r data a’r dystiolaeth sydd ar gael, mae economegwyr Llywodraeth Cymru wedi parhau i chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gynhyrchu dadansoddiad economaidd a phapurau briffio ar yr heriau economaidd sy’n esblygu sy’n ymwneud â’r argyfwng costau byw, y pandemig a symud i gysylltiadau masnachu newydd â’r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyniadau i’r Cabinet ac uwch swyddogion, paratoi dadansoddiadau ac asesiadau pwrpasol a nodir mewn Adroddiad Economaidd Misol mewnol. Rydym yn parhau i wella ein dealltwriaeth o’n buddsoddiadau ar Sero Net drwy ganolbwyntio ar gyflawni'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae ein Cynllun Cyflawni Sero Net yn cynnwys dadansoddiad pellach o effaith polisïau a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru a’n partneriaid ar allyriadau nwyon tŷ gwydr.
- Rydym yn parhau i ddatblygu adroddiad y Prif Economegydd i roi darlun llawnach o ragolygon a datblygiadau economaidd Cymru ac i ategu Adroddiad Llesiant Cymru. Rydym wedi ehangu’r sylw a roddir i faterion a rhagolygon cyllidol yn adroddiad y Prif Economegydd ac rydym yn parhau i roi cyngor ar roi egwyddorion y Llyfr Gwyrdd ar waith yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.
- Rydym wedi mireinio ac ymestyn ein model effaith ddosbarthiadol ar gyfer dadansoddi gwariant cyhoeddus yng Nghymru. Mae’r dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar y meysydd gwariant datganoledig mwyaf, gan roi dealltwriaeth lefel uchel ynghylch pa mor flaengar yw gwariant ar y meysydd hyn. Eleni, rydym wedi diweddaru’r holl ddadansoddiadau ar sail data diweddaraf yr Arolwg o Adnoddau Teulu. Ar ben hynny, rydym wedi gwella’r fethodoleg ar gyfer dadansoddi gwariant ar iechyd drwy seilio hyn ar y data newydd sydd ar gael gan Arolwg Cenedlaethol Cymru. Cyhoeddwyd y diweddariad ar y dadansoddiad dosbarthiadol fel rhan o becyn Cyllideb Ddrafft 2024-25.
- Rydym wedi parhau i ddatblygu ein gwaith i ymwreiddio dull gweithredu sy’n canolbwyntio ar rywedd, ac rydym yn sicrhau bod Trysorlys Cymru yn bwrw ymlaen â’r gwaith pwysig hwn. Rydym yn parhau i ddefnyddio cysylltiadau gwerthfawr drwy rwydwaith y Llywodraethau Llesiant (WeGo) i barhau â’r ymgysylltu ag eraill sy’n gweithredu yn y maes hwn a ffurfioli’r ymgysylltu hynny.

## Cynllunio Seilwaith

- Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (WIIS) yw ein hail strategaeth seilwaith drawslywodraethol 10 mlynedd, sydd wedi’i chynllunio i osod fframwaith ar gyfer ein holl fuddsoddiadau mewn seilwaith. Nid yw’r strategaeth yn rhestr o’r buddsoddiadau seilwaith penodol a fydd yn cael eu cyflawni. Yn hytrach, mae’n nodi’r canlyniadau y dylai buddsoddi mewn seilwaith eu galluogi. Gan fod hon yn strategaeth sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau, cynlluniwyd y fframwaith a nodir yn Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ar gyfer blaenoriaethu ein buddsoddiadau mewn seilwaith i sicrhau bod ein buddsoddiadau’n cyflawni nifer o amcanion ac yn sicrhau nifer o fanteision.
- Mae’r strategaeth hefyd yn disgrifio sut rydym yn bwriadu gweithio i gyflawni’r canlyniadau hynny, gan nodi’r gofynion sylfaenol pwysig y mae’n rhaid i bob cynnig ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith yn y dyfodol eu bodloni. Bydd yr egwyddorion trawsbynciol hyn, fel sicrhau bod buddsoddiad yn cyflawni yn erbyn ein hamcanion datgarboneiddio, ein hagenda creu lleoedd, a dangos ein hymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol – er enghraifft, drwy fabwysiadu dulliau cyllidebu ar sail rhywedd – yn cael eu gwreiddio gan holl adrannau Llywodraeth Cymru pan fydd buddsoddiadau mewn seilwaith yn cael eu cynllunio.
- Mae pennod cyflawni’r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru hefyd yn nodi gofyniad i gael gwerthusiad cadarn o fuddsoddiadau mewn seilwaith. Mae gwerthuso effeithiol yn hanfodol i sicrhau ein bod yn gwireddu manteision ein gwariant cyfalaf, ac i asesu i ba raddau y mae ein dyraniadau cyllideb cyfalaf yn cyfrannu at ganlyniadau’r Strategaeth. Rydym yn disgwyl y bydd gwerthuso, ochr yn ochr â gweithgareddau sicrwydd rheolaidd, yn chwarae rhan ganolog mewn penderfyniadau ynghylch dyraniadau cyllideb cyfalaf yn y dyfodol a byddwn yn edrych ar opsiynau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

## Trethi Cymru

- Rydym yn parhau i fwrw ymlaen â’n hymrwymiadau a manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio ein hysgogiadau treth presennol er budd trethdalwyr Cymru a chyflawni amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru.
- Ym mis Tachwedd 2021, fe wnaethom gyhoeddi’r Cynllun Gwaith Polisi Trethi ar gyfer 2021-2026 i gyd-daro â chyhoeddi’r Fframwaith Polisi Trethi diweddaraf. Mae’r Cynllun Gwaith yn nodi blaenoriaethau ein polisi trethi er mwyn sicrhau bod trethi wedi’u datganoli’n gadarn a sefydlog, a chefnogi’r gwaith o gyflawni ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas â threthi datganoledig a lleol. Mae ein Cynllun Gwaith Polisi Trethi yn rhoi cyfarwyddyd a sicrwydd clir mewn perthynas â’n blaenoriaethau o ran polisi trethi ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd.
- Ym mis Rhagfyr 2022, fe gyhoeddom ein hail adroddiad blynyddol yn erbyn y Cynllun Gwaith Polisi Trethi pum mlynedd ac rydym yn parhau i adrodd ar gynnydd yn flynyddol yn erbyn y cynllun. Bydd yr adroddiad nesaf yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2023.
- Yn gynharach eleni, cwblhawyd yr adolygiadau annibynnol o’n dwy dreth sydd wedi’u datganoli’n llawn, y Dreth Trafodiadau Tir a’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, ac mae’r adroddiadau wedi cael eu cyhoeddi[1].
- Mae’r gwaith yn parhau i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno deddfwriaeth i ymgynghori ar ganiatáu awdurdodau lleol i godi ardoll ymwelwyr. Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2022 a chyhoeddwyd dogfen canlyniadau’r ymgynghoriad wedi hynny ym mis Mawrth 2023. Y bwriad yw cyflwyno deddfwriaeth yn ystod hydref 2024, ac rydym yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth i ni gwblhau ein cynigion.

1 Datganiad Ysgrifenedig:Adolygiad Annibynnol o’r Dreth Trafodiadau Tir (15 Chwefror 2023) - LLYW.CYMRU Adolygiad annibynnol:Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

- Mewn ymateb i ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i “ddatblygu rhagor o fesurau treth, cynllunio a thai effeithiol i sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu diogelu”, ar y cyd â’n partneriaid a’n rhanddeiliaid, rydym yn parhau i ddatblygu fframwaith a allai ganiatáu i awdurdodau lleol ofyn am gyfraddau Treth Trafodiadau Tir (TTT) uwch ar gyfer ail gartrefi a llety tymor byr yn eu hardaloedd lleol. Y bwriad yw cefnogi Gweinidogion i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth yn dilyn ceisiadau gan awdurdodau lleol. Rhoddir ystyriaeth hefyd i’r sail ddeddfwriaethol ehangach sydd ei angen i ganiatáu codi cyfraddau TTT uwch ar gyfer ail gartrefi a llety tymor byr mewn ardaloedd lleol penodol.
- Mae Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymateb pan fydd angen gwneud newidiadau’n gyflym i Ddeddfau Trethi Cymru oherwydd digwyddiadau allanol. Bydd gwaith yn dechrau ar sefydlu’r saernïaeth tymor hirach i Lywodraeth a Senedd Cymru wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru yn unol â’r amserlen a ddarperir gan y Ddeddf.
- Eleni, rydym wedi parhau i feithrin perthynas waith adeiladol gyda Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) a Thrysorlys Ei Fawrhydi ar drethi a gedwir yn ôl. Yn sgil y cydweithio, mae materion y mae angen rhoi sylw iddynt yn dod i amlygrwydd yn gynt, gan gefnogi gwell proses o lunio polisïau.
- Rydym yn parhau i wella prosesau mewnol Llywodraeth Cymru fel bod trethiant, lle bo hynny’n briodol, yn cael ei ystyried fel rhan o’r broses o ddatblygu polisi er mwyn sicrhau nad oes unrhyw drethiant anfwriadol na rhwymedigaethau eraill.

## Ymgysylltu

- Rydym yn cymryd agwedd gydlynol a strategol tuag at gyfathrebu ac ymgysylltu, gan sicrhau bod gweithgarwch yn cyd-fynd ag amcanion Gweinidogol, y cytunir arnynt gyda’r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar ddechrau pob tymor y Senedd. Mae ymgysylltu a chydweithio â’n rhanddeiliaid a’n partneriaid allweddol yn dal yn flaenoriaeth, yn enwedig o ystyried y sefyllfa gyllidol anodd barhaus.
- Rydym wedi parhau i ymgysylltu â’n partneriaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, Comisiynwyr Statudol, mudiadau yn y trydydd sector a phartneriaid cymdeithasol, yn ystod camau cyntaf y gwaith o baratoi’r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25. Rhoddodd cyfarfodydd bwrdd crwn gyfle i’r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol nodi’r sefyllfa economaidd a chyllidol heriol. Rhoddodd gyfle i bartneriaid nodi eu barn ar flaenoriaethau ar gyfer cyllid i sicrhau’r effaith a’r budd mwyaf, a lle gallai fod yn bosibl ystyried arbedion, wrth i ni weithio gyda’n gilydd i ymateb i’r cyd-destun presennol a mynd i’r afael â heriau tymor hwy.
- Cynhaliom ein cynhadledd dreth flynyddol, sy’n helpu i hyrwyddo agenda trethi Cymru, ar 9 Tachwedd 2023. Roedd amryw o gyflwynwyr, gan gynnwys Canolfan Llywodraethiant Cymru, y Prif Economegydd ac Awdurdod Cyllid Cymru. Roedd un o’r sesiynau grŵp yn canolbwyntio ar ymgysylltu â rhanddeiliaid ar drethi datganoledig. Mae’r rhai a fu’n bresennol wedi dweud eu bod yn gwerthfawrogi ein dull agored a chynhwysol o ymgysylltu.
- Rydym yn dal i weithio’n agos gydag Awdurdod Cyllid Cymru, y corff sy’n gyfrifol am weinyddu a rheoli’r gwaith o gasglu’r ddwy dreth sydd wedi’u datganoli’n llawn yng Nghymru. Rydym hefyd yn cynnal ein Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda CThEF i weinyddu a rheoli Cyfraddau Treth Incwm Cymru.
- Mae gwaith i wella dealltwriaeth o’r gyllideb ac i ymgysylltu â phobl ifanc ar drethi Cymru a’r Gyllideb wedi datblygu’n dda eleni. Mae aelodau Bwrdd Ieuenctid Plant yng Nghymru wedi cyflwyno eu gwaith cychwynnol ar y fersiwn pobl ifanc o’r Cynllun Gwella’r Gyllideb i’r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a Chadeiryddion Pwyllgor Cyllid y Senedd a’r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn digwyddiad yn y Senedd ym mis Medi 2023. Bydd y cynnyrch terfynol yn cael ei lansio ddechrau 2024.
- Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd fod hawl gan Lywodraeth Cymru i osod cyfraddau treth incwm gwahanol yng Nghymru wedi codi o 32% i 38% eleni. Y prif sianeli sy’n hybu ymwybyddiaeth yw’r teledu, y rhyngrwyd ac ar lafar. Mae hyn yn cefnogi ein dull o ddefnyddio sianeli cyfathrebu ac ymgysylltu rhad ac am ddim ac isel eu cost.
- Mae gan Drysorlys Cymru ddwy sianel Twitter, sef @TrysorlysCymru a @WelshTreasury ac mae’n cyhoeddi cynnwys ar safbwynt y Gweinidog Cyllid ar faterion ariannol, Cyllideb Cymru, Trethi Cymru, cydweithio â Llywodraethau datganoledig eraill a chyhoeddiadau polisi a gwariant Llywodraeth Cymru. Mae nifer y dilynwyr wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda 1,500 yn dilyn @TrysorlysCymru ac 8,300 yn dilyn @WelshTreasury.

Etholiad Cyffredinol? (2024)

Etholiad y Senedd? (2026)

| | | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cynllunio a chreu cyllideb 2024-25 | Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 | Cynllunio a chreu cyllideb 2027-28 | Cynllunio a chreu cyllideb 2028-29 |
| Penderfyniadau Gwario | Ymgorfforiʼr Ddeddf mewn penderfyniadau gwario | Cynhaliwyd adolygiad o aelodaeth y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb (BIIAG) yn 2023 i sicrhau bod y grŵp yn cyd-fynd yn llwyr â chyflawni ei ganlyniadau, a chytunwyd ar gynllun gwaith ar gyfer 2023. | Parhau i ymgysylltu â Llywodraethau eraill a'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i sicrhau ei fod yn cyflawni ei ganlyniadau, yn parhau i ymgysylltu ac yn dylanwadu ar welliannau i brosesau treth a'r gyllideb, yn ogystal â chefnogi Cynllun Gwella'r Gyllideb. | | | |
| | | Rydym wedi gweithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i ddatblygu dull gweithredu lle caiff cynigion gwario eu datblygu sy'n cydbwyso manteision hirdymor ag anghenion tymor byr. Fel rhan o raglen waith 2023, rydym wedi bwrw ymlaen â diwygiadau ehangach i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol, gan adeiladu ar waith o Gyllideb 2023-24. | Parhau i weithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i wella proses yr Asesiad Effaith Integredig Strategol a sicrhau bod diwylliant o fonitro a gwella parhaus yn cael ei roi ar waith. | | | |
| | Yr Agenda Atal | Fe wnaethom ymgysylltu â'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb a chynnal gweithdy ar atal gan gytuno ar y diffiniad i'w ddefnyddio i fwrw ymlaen â'n cynlluniau. Cynhaliwyd amryw o drafodaethau i ystyried sut y gallem fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Cytunodd aelodau'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb y byddem yn datblygu cynllun i wreiddio ataliaeth yn y broses o bennu'r gyllideb, yn benodol ym maes bioamrywiaeth. Byddai'r gwaith hwn wedyn yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno a gwreiddio gwaith ataliaeth mewn meysydd eraill ar draws Llywodraeth Cymru. | Gweithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i lywio dyfodol yr agenda atal. Yn amodol ar ganfyddiadau o waith blaenorol, edrych ar y ffordd orau o gefnogi dull gweithredu cyllideb gyfan tuag at weithgareddau ataliol; ystyried gwerthusiad posibl i brofi ymarferoldeb ac effaith symud gwariant tuag at weithgareddau ataliol; a'r amodau sydd eu hangen i wneud hyn yn effeithiol ar draws y sefydliad cyfan. | | | |
| | | Rydym wedi parhau i ariannu Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal i wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal ledled Cymru. Mae'r gronfa hon wedi darparu gwasanaethau Maethu, Mabwysiadu ac Eiriolaeth ychwanegol. | Rydym yn dal i ddefnyddio cyllid Buddsoddi i Arbed er mwyn canolbwyntio ar fwrw ymlaen â'n hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n ymwneud â gwella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ledled Cymru. Mae'r cyllid a ddarperir yn galluogi cymorth ychwanegol ym meysydd gwasanaethau Maethu, Mabwysiadu ac Eiriolaeth a chaiff y gwaith hwn ei werthuso i asesu effeithiolrwydd y dulliau gweithredu yn y meysydd perthnasol. Mae yna gwestiwn ehangach ynghylch sut y gellir mabwysiadu trefn gyllidebu ataliol yn ehangach ar draws y sefydliad. Byddwn yn parhau i fonitro a defnyddio canfyddiadau'r gwerthusiadau i lunio'r ffordd orau o roi cyllidebu ataliol ar waith yn y dyfodol. | | | |
| | | Fe wnaethom gyhoeddi ein Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (WIIS) deg mlynedd ym mis Rhagfyr 2021, drwy ddefnyddio sylfaen dystiolaeth gadarn er mwyn integreiddio ystyriaeth o fuddiannau hanfodol eraill – gan gynnwys datgarboneiddio, gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth – er mwyn i'n buddsoddiadau mewn seilwaith gael yr effaith gadarnhaol fwyaf bosibl ar lesiant Cymru. | Yn dilyn cyhoeddi'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn 2021, cyhoeddwyd llif o brosiectau sy'n dangos y camau hollbwysig y mae angen eu cymryd i gyflawni dyheadau'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae'r llif o brosiectau'n amlinellu'r buddsoddiadau seilwaith rydym ni'n bwriadu eu gwneud, a buddsoddiadau ein partneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat dros y tair blynedd nesaf. Cyhoeddir fersiynau pellach o'r llif prosiectau yn y dyfodol wrth i ni barhau i weithio gyda'n partneriaid ar eu dull o gynllunio seilwaith ac adeiladu ar y gwaith yng Nghynllun Gwella'r Gyllideb. | | Cyhoeddi Cymru Sero Net (2026-30) | |
| | | | | | Pennu lefel y drydedd gyllideb garbon (2026-2030). | |

Etholiad Cyffredinol?

Etholiad y Senedd?

| 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027+ |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio a chreu cyllideb 2024-25 | Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 | Cynllunio a chreu cyllideb 2027-28 | Cynllunio a chreu cyllideb 2028-29 |

## Penderfyniadau Gwario

### Yr Agenda Atal

Parhau i ddatblygu cryfder y sylfaen dystiolaeth bresennol i roi sicrwydd ynghylch gwerth am arian i gefnogi blaenoriaethu buddsoddiadau, gan adeiladu ar y model a ddatblygwyd. Adolygu dulliau cyllidebol yn erbyn tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar ddatgarboneiddio a bioamrywiaeth, gan adolygu cynlluniau gwariant cyfredol i leihau effeithiau carbon a chyflymu'r blaengynllunio ar gyfer y meysydd hynny y mae llywodraeth yn rhyngweithio â nhw.

Gwella'r dull gweithredu neu hyrwyddo'r dull gweithredu presennol i arfarnu penderfyniadau ariannol i osgoi'r risg y byddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi seilwaith sy'n cynyddu allyriadau, heb ddeall yn glir sut byddai'r effaith yn cael ei lliniaru, a sut byddai'r mesurau lliniaru'n cael eu cyllido. Parhau i archwilio'r egwyddor o gysoni cyllidebau ariannol a charbon, ochr yn ochr â'r sylfaen dystiolaeth sy'n datblygu.

### Cynllunio ariannol tymor hirach

Cysoni cynlluniau ariannol a threth er mwyn mynd â chynlluniau ariannol tymor hirach rhagddynt. Gweithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb a rhanddeiliaid i lunio cynlluniau tymor hirach ar y cyd sy'n ymwneud â ffyrdd o ddefnyddio rhagolygon dangosol. Ystyried pa wersi y gellir eu dysgu gan randdeiliaid rhyngwladol ynghylch sut maen nhw'n ymdrin â gorwel hirach, yn enwedig o ran refeniw a sut maen nhw'n cynnal Adolygiadau o Wariant tymor hir. Bydd angen i'r rhain fod yn rhaglenni dros nifer o flynyddoedd a byddant yn seiliedig ar wersi o'r flwyddyn flaenorol.

2023: Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi parhau i weithio gyda Rhwydwaith Llywodraethau'r Economi Llesiant; mae'r aelodau'n cynnwys swyddogion o'r Alban, Gwlad yr Iâ, Seland Newydd a Chanada. Mae gan y Rhwydwaith hwn uchelgais ar y cyd i gyflawni ac i wella llesiant drwy eu dull gweithredu economaidd.

2024 ymlaen: Parhau i archwilio gwaith Llywodraethau eraill a'u dull o gynllunio ariannol yn y tymor hwy; nodi'r gwersi y gallwn eu dysgu yng Nghymru fel rhan o'n cynlluniau i archwilio opsiynau ar gyfer cyllidebau tymor hwy ar gyfer y cyfnod y mae gennym setliadau cyllido ar ei gyfer neu i adlewyrchu blaenoriaethau newydd y Llywodraeth.

Parhau i adolygu'r dystiolaeth bresennol, gan gynnwys Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, cyngor Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd a modelu Nuffield i gefnogi trafodaethau am y gyllideb. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gydag adrannau wrth iddynt siapio eu gwaith asesu effaith.

### Cyllideb Atodol

Yn 2022-23, fe wnaethom fabwysiadu strategaeth gyllidol newydd i gynyddu'r cyllid sydd ar gael, gan gynnwys strategaeth cronfeydd wrth gefn newydd a gor-raglen gyfalaf. Mae proses y gyllideb atodol yn parhau i fonitro'r dull hwn o weithredu.

Arweiniodd pwysau ariannol eithriadol a gododd yn 2023-24 at adolygiad canol blwyddyn o derfynau cyllideb Llywodraeth Cymru. Ochr yn ochr â newidiadau i lefel gyffredinol yr adnoddau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i'w cadarnhau gan Lywodraeth y DU yn yr Amcangyfrifon Atodol, cynigir rheolaethau gwariant diwygiedig a bydd ail gyllideb atodol 2023-24 yn manylu arnynt tua diwedd y flwyddyn.

Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd wrthi'n adolygu'r broses ar gyfer cyrff sy'n cael eu hariannu'n uniongyrchol mewn perthynas â chyllidebau atodol. Byddwn yn gweithio gyda'r Pwyllgor i wella prosesau yn ôl yr angen.

Roedd Ail Gyllideb Atodol 2022-23 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2023-24 yn parhau i ddarparu naratif cynhwysfawr o ddyraniadau sylweddol y cyllidebau presennol a sut maent yn cael eu hailflaenoriaethu, ac effeithiau hynny, er mwyn gwella tryloywder.

| | | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Etholiad Cyffredinol? | | Etholiad y Senedd? | |
| | | Cynllunio a chreu cyllideb 2024-25 | Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 | Cynllunio a chreu cyllideb 2027-28 | Cynllunio a chreu cyllideb 2028-29 |
| Penderfyniadau Gwario | Tryloywder Data Cyllidebol | Fel rhan o'n gwaith parhaus i ddarparu fersiwn Pobl Ifanc o Gynllun Gwella'r Gyllideb, rydym wedi rhoi cyflwyniadau dealltwriaeth o'r gyllideb i aelodau o Fwrdd Prosiect Plant yng Nghymru, Cymru Ifanc. Rydym hefyd wedi rhoi cyflwyniadau ar Osod Cyllidebau ac Ymgysylltu, Cynllunio Seilwaith, Dadansoddi Ariannol ac Economaidd, Asesu Effaith a Threthi Cymreig. Mae'r gwaith hwn wedi helpu aelodau Bwrdd Prosiect Cymru Ifanc i ddeall yn well y gwaith rydyn ni'n ei wneud yn Nhrysorlys Cymru ac mae'n eu helpu i ddeall sut rydyn ni'n gwneud penderfyniadau cyllidebol. | Parhau i weithio gyda Plant yng Nghymru i gyhoeddi fersiwn Pobl Ifanc o Gynllun Gwella'r Gyllideb ynghyd ag animeiddiad ym mis Ionawr 2024. Ar ôl cwblhau'r gwaith hwnnw, trafodir opsiynau ar gyfer gwaith pellach gyda Bwrdd Prosiect Plant yng Nghymru. | Parhau i fireinio a gwella tryloywder yr wybodaeth am y gyllideb, gan weithio gyda rhanddeiliaid allanol, gyda'r nod o wella dealltwriaeth o'r Gyllideb Flynyddol a'r ymgysylltiad â hi. | | |
| Dadansoddiad Cyllidol ac Asesu Effaith | Dadansoddiad Cyllidol | Model dadansoddiad dosbarthiadol a ddiweddarwyd ar gyfer pob maes yn seiliedig ar ddata newydd yr Arolwg o Adnoddau Teulu a newidynnau iechyd ychwanegol yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. | Cynnal model dadansoddi dosbarthiadol ac ystyried ffynonellau data newydd a/neu well. Mae canlyniadau'r model yn weddol sefydlog dros amser, felly bydd diweddariadau'n cael eu cyhoeddi pan fydd newidiadau sylweddol o ran y defnydd o wasanaethau cyhoeddus neu ddyrannu gwariant. | | | |
| | | Defnyddio adnoddau dadansoddi dosbarthiadol treth i roi sail i benderfyniadau cyllidebu. | | | | |
| | Asesu Effaith Penderfyniadau ynghylch y Gyllideb | Rydym wedi gweithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i fwrw ymlaen â chamau gweithredu yn 2023, ac rydym yn parhau i weithio gyda'n gilydd i ddatblygu dull cadarn a thryloyw o asesu effaith penderfyniadau gwario. Gan adeiladu ar safbwyntiau rhanddeiliaid, rydym wedi gwneud cysylltiadau clir gyda sut mae dangos yn fwy effeithiol ac yn gliriach bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail i'r fframwaith ar gyfer pob dyletswydd arall; datblygiadau i asesu effaith ddosbarthiadol gwariant cyhoeddus yng Nghymru; uchelgeisiau ar gyfer cyllidebu ar sail rhywedd gan gynnwys defnyddio lens rhywedd i ddefnyddio dull croestoriadol; ystyried cydbwysedd nodau hirdymor yn erbyn nodau tymor byr ac effeithiau penderfyniadau gwario. | Gweithredu dadansoddiad gwell o effaith y Gyllideb Flynyddol sy'n ystyried pob datblygiad yn y blynyddoedd blaenorol, mewn ffordd sy'n dangos yn glir sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail i'r holl ystyriaethau hyn. Bydd hyn yn cynnwys rhoi sylw i argymhellion adolygiad a gomisiynwyd. Parhau i weithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb ar yr adolygiad o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol drwy gydol 2024, gyda'r bwriad o gyflawni'r canfyddiadau erbyn diwedd y flwyddyn a chreu cynllun gweithredu i fwrw ymlaen ag argymhellion i 2025-26. | | | |
| | | Rhoddwyd ystyriaeth i'r gwersi a ddysgwyd o'r cynlluniau peilot cyllidebu ar sail rhywedd yn y gwaith o wreiddio cyllidebu ar sail rhywedd ar draws Llywodraeth Cymru. | Ystyried goblygiadau a chanfyddiadau'r cynlluniau peilot i bennu i ba raddau y mae canolwyntio ar rywedd wedi'i wreiddio'n llawn, gan nodi gwersi a ddysgwyd ac arferion da. | | | |

Etholiad Cyffredinol?

Etholiad y Senedd?

| 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027+ |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio a chreu cyllideb 2024-25 | Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 | Cynllunio a chreu cyllideb 2027-28 | Cynllunio a chreu cyllideb 2028-29 |

## Dadansoddiad Cyllidol ac Asesu Effaith

### Asesu Effaith Penderfyniadau ynghylch y Gyllideb

Byddwn yn parhau i ddatblygu ac ymgysylltu ag eraill ar gyllidebu ar sail rhywedd. Byddwn yn gwneud hyn drwy ymgysylltu'n rheolaidd â Llywodraethau eraill, gan gynnwys yr Alban, Seland Newydd, Gwlad yr Iâ a Chanada, a dysgu ganddynt. Byddwn hefyd yn ymgysylltu â Womens Budget Group Cymru a rhanddeiliaid eraill drwy'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb er mwyn datblygu ein dull cyllidebu ar sail rhywedd. Bydd yn rhaid datblygu ein dull mewn cydweithrediad ag arweinwyr cyllid yn adrannau Llywodraeth Cymru, er mwyn cydnabod eu rôl yn y gwaith o bennu cyllidebau ym mhortffolios Gweinidogol unigol, sy'n digwydd yn annibynnol ar Gyllideb Flynyddol Llywodraeth Cymru ond yn cyfrannu at hynny.

Parhau i gydweithio â rhanddeiliaid mewnol allweddol fel Penaethiaid Cyllid, a'r proffesiwn Polisi, a thimau Cydraddoldeb, i gefnogi datblygiadau i asesu'r effaith ar lefel portffolio a datblygu dealltwriaeth ehangach a defnyddio dulliau gweithredu cyllidebu ar sail rhywedd, a defnyddio hynny, wrth ddatblygu polisïau a gyda gweithgareddau cyllidebu ar draws adrannau.

### Dadansoddiadau Economaidd

Darparu cyngor penodol i Gymru i sicrhau bod egwyddorion y Llyfr Gwyrdd yn cael eu defnyddio mewn meysydd polisi perthnasol mewn modd sy'n gyson â gwerthoedd Llywodraeth Cymru.

**2023:** Cynhyrchu dadansoddiad economaidd rheolaidd a gwybodaeth briffio am yr argyfwng economaidd sy'n esblygu sy'n gysylltiedig â chostau byw, y pandemig a'r newid i gysylltiadau masnachu newydd â'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyniadau i'r Cabinet ac uwch swyddogion, paratoi dadansoddiadau ac asesiadau pwrpasol a nodir mewn Adroddiad Economaidd Misol mewnol.

**2024–2027+:** Datblygu Adroddiad blynyddol y Prif Economegydd ymhellach i ategu adroddiad Llesiant Cymru drwy ganolbwyntio ar ddatblygiadau economaidd diweddar a'r heriau economaidd sy'n dod i'r amlwg, a thrwy ehangu'r sylw i ragolygon ac opsiynau cyllidol.

## Cynllunio Seilwaith

**2023:** Archwilio sut byddai modd manteisio i'r eithaf ar beirianwaith a phrosesau mewnol Llywodraeth Cymru i gael y gorau o'n buddsoddiadau yn erbyn y canlyniadau seiliedig ar barthau yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, ac i helpu i gyflawni'r camau gweithredu croestoriadol yn ehangach.

**2023:** Datblygu dull gwerthuso a monitro i asesu i ba raddau y mae'r buddsoddiadau a nodir yn y Cynllun Cyllid Seilwaith (IFP) wedi cyflawni yn erbyn y canlyniadau yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, ac archwilio sut y gellir optimeiddio prosesau a pheirianwaith mewnol Llywodraeth Cymru i sicrhau'r cyflawniad gorau posibl yn erbyn canlyniadau. Parhau i ddatblygu dull gwerthuso a monitro. Ystyried a fyddai modd treialu'r dull arfaethedig mewn rhai ardaloedd wedi'u targedu.

**2024:** Defnyddio'r dull gwerthuso a monitro i bennu i ba raddau y mae ein buddsoddiadau mewn seilwaith wedi cyflawni yn erbyn y canlyniadau strategol cysylltiedig yn y Cynllun Cyllid Seilwaith.

**2025–2026:** Wrth i ddiwedd y setliad cyfalaf tair blynedd agosáu (gorffen yn 2024-25), ac yn ddibynnol ar ddarpariaeth setliad cyfalaf aml-flwyddyn dilynol gan Drysorlys EF, mynd ati i ddatblygu ail Gynllun Cyllid Seilwaith, gan ddefnyddio'r canlyniadau strategol cyson a nodir yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, ac adlewyrchu canlyniadau'r dull gwerthuso a monitro.

## Trethi Cymreig

Etholiad Cyffredinol? (2024)

Etholiad y Senedd? (2026)

| 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027+ |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio a chreu cyllideb 2024-25 | Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 | Cynllunio a chreu cyllideb 2027-28 | Cynllunio a chreu cyllideb 2028-29 |
| Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddwyd Cynllun Gwaith Polisi Trethi a fydd ar waith am bum mlynedd (2021-26). Cynllun i gyhoeddi Adroddiad Polisi Trethi Blynyddol i gyd-fynd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru. | | | | |
| Yn 2022, comisiynwyd yr adolygiadau annibynnol o'n dwy dreth sydd wedi'u datganoli'n llawn, y Dreth Trafodiadau Tir (TTT) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (TGT). Disgwylir adroddiad ar y naill adolygiad a'r llall ddechrau 2023. | | | | |
| Ym mis Hydref 2022, fe wnaethom gyflwyno newidiadau i brif gyfraddau a bandiau'r Dreth Trafodiadau Tir yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i newid y bandiau a'r cyfraddau cyfatebol ar gyfer y dreth stamp. | Rydym hefyd yn ystyried sut gallwn ni ddefnyddio prosesau a chynhyrchion sicrwydd Llywodraeth Cymru yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl, sbarduno arferion gorau a gwella datblygiad cydgysylltiedig ar draws Llywodraeth Cymru. | | | |
| Daeth Treth Pecynnau Plastig Llywodraeth y DU i rym ar 1 Ebrill 2022. Mae'r dreth newydd hon yn berthnasol i ddeunydd pecynnu plastig sy'n cael ei gynhyrchu yn y DU, neu sy'n cael ei fewnforio i'r DU, nad yw'n cynnwys o leiaf 30% o blastig wedi'i ailgylchu. Cynhyrchwyd canllawiau manwl i amlinellu'n fanylach pa ddeunydd pecynnu plastig y mae'r dreth yn berthnasol iddynt, pwy sy'n gyfrifol am dalu a chyfrifyddu, ffurflenni treth (adrodd) a chadw cofnodion. | Ystyried sut mae defnyddio ysgogiadau polisi, deddfwriaethol a threth ehangach gyda phartneriaid polisi i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a chyflawni ein hamcanion amgylcheddol ehangach. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda chydweithwyr ym maes polisi gwastraff a Llywodraeth y DU ar Gynlluniau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ac Allyriadau Masnachu Carbon. | | | |
| Cafodd y Fframwaith Polisi Trethi ei ailgyhoeddi ym mis Tachwedd 2021. Mae'r Fframwaith Polisi yn nodi'r egwyddorion a'r amcanion a fydd yn sail i'r broses o ddatblygu polisi a strategaeth Gweinidogion Cymru yn y dyfodol. | Parhau i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i'r broses o ddatblygu polisi trethi. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cymorth dadansoddol yn Llywodraeth Cymru a chyda Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi drwy ein Cytundeb Lefel Gwasanaeth. | | | |
| Gwaith parhaus i wella gallu treth Cymru yn y meysydd polisi, dadansoddi, cyfathrebu ac ymgysylltu, ymchwil a thystiolaeth a gweinyddu. | | | | |
| Mae gwaith wedi cael ei wneud i gyflawni Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno deddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll ymwelwyr, gan gynnwys cyhoeddi dogfen ymgynghori, cynnal amrywiaeth o sesiynau ymgysylltu, a chomisiynu ymchwil i wahanol agweddau ar gynllunio ardoll ymwelwyr. | Bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu'r trefniadau deddfwriaethol a'r prosesau cysylltiedig er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll ymwelwyr. (Mae'r union amseriad yn dibynnu ar y rhaglen ddeddfwriaethol.) Mae'r gwaith yn parhau i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno deddfwriaeth i ymgynghori ar ganiatáu awdurdodau lleol i godi ardoll ymwelwyr. Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2022 a chyhoeddwyd dogfen canlyniadau'r ymgynghoriad wedi hynny ym mis Mawrth 2023. Y bwriad yw cyflwyno deddfwriaeth yn ystod hydref 2024, ac rydym yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth i ni gwblhau ein cynigion. | | | |

Etholiad Cyffredinol?

Etholiad y Senedd?

| 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027+ |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio a chreu cyllideb 2024-25 | Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 | Cynllunio a chreu cyllideb 2027-28 | Cynllunio a chreu cyllideb 2028-29 |

## Trethi Cymreig

| 2023 | 2024 – 2027+ |
|---|---|
| Ym mis Medi 2022, rhoddwyd y Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022. Parhau i ddatblygu cynnig deddfwriaethol i ddarparu cyfrwng ychwanegol i Weinidogion Cymru ymateb pan fydd angen newid Deddfau Trethi Cymru yn gyflym. | Adolygu gweithrediad ac effaith y Ddeddf, gan gynnwys ystyried mecanweithiau deddfwriaethol eraill ar gyfer newid Deddfau Trethi Cymru. |

Byddwn yn parhau i feithrin perthynas waith adeiladol gyda Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi a Thrysorlys Ei Fawrhydi ar drethi a gedwir yn ôl. Rydym hefyd yn datblygu ein prosesau mewnol er mwyn sicrhau bod trethiant, lle bo hynny'n briodol, yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu polisi, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw drethiant anfwriadol na rhwymedigaethau eraill.


## Ymgysylltu

| 2023 | 2024 – 2027+ |
|---|---|
| Datblygu negeseuon a chyfathrebu mwy penodol i ddangos effaith gwariant ar draws adrannau'r Llywodraeth a meysydd cyllideb. | Symud o ymwybyddiaeth o ymgysylltiad, defnyddio'r arferion da a nodwyd, er mwyn helpu i asesu effaith penderfyniadau ynghylch y gyllideb a dylanwadu ar flaenoriaethau gwario. |
| Datblygu dulliau newydd o roi gwybod i randdeiliaid am broses y gyllideb, a sut gallant gyfrannu gwybodaeth a chael dylanwad. | Parhau i ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid i sicrhau y gofynnir yn amserol am eu barn am flaenoriaethau cyllid er mwyn dylanwadu ar flaenoriaethau'r gyllideb. |
| Datblygu llyfrgell gynnwys i ymgorffori mewnbwn gan grwpiau targed mewn deunydd newydd. Parhau â'r gwaith ymgysylltu gydag aelodau Bwrdd Ieuenctid Plant yng Nghymru fel rhan o'n gweithgarwch ar ddealltwriaeth o'r gyllideb yng nghyswllt cydgynhyrchu Cynllun Gwella'r Gyllideb. | Parhau i archwilio cyfleoedd i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a gwella dogfennau a gyhoeddir am y gyllideb i rannu'r negeseuon allweddol mewn ffordd syml, er mwyn codi ymwybyddiaeth dinasyddion o Gyllideb Flynyddol Llywodraeth Cymru (treth a gwariant). |

Casglu gwybodaeth am brofiadau ac ymwybyddiaeth dinasyddion yn barhaus er mwyn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu naratif ar gyfer cyd-destun COVID-19, cyd-destun adfer a chyfranogiad yn y dyfodol. Monitro a gwerthuso gweithgarwch cyfathrebu'n barhaus er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni ac asesu targedau a chyrhaeddiad yn gyson.

| 2023 | 2024 – 2027+ |
|---|---|
| Gweithio gyda sefydliadau partner a defnyddio arbenigedd y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb. | Pwyso a mesur yr hyn a ddysgwyd a chyngor er mwyn datblygu a chyfrannu at strategaeth ymgysylltu 3 blynedd i gryfhau ac adeiladu ar ymdrechion ymgysylltu gyda'r nod o gynyddu'r effaith ar lefel rhanddeiliaid ac ymysg dinasyddion ehangach yng Nghymru ar flaenoriaethau'r gyllideb. |

Wrth i gyfrifoldebau trethi datganoledig aeddfedu, parhau i ddefnyddio'r Grŵp Ymgysylltu ynghylch Trethi fel cyfrwng i archwilio, cefnogi a llywio'r gwaith o lunio polisïau, gan nodi cyfleoedd a heriau yn y dyfodol. Adolygiad blynyddol a phroses o werthuso mewnbwn er mwyn cyfrannu ar gyfer y blynyddoedd dilynol.




## Allwedd

**BIIAG** – Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb

**CThEF** – Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi

**TGT** – Treth Gwarediadau Tirlenwi

**TTT** – Treth Trafodiadau Tir

**WIIS** – Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru